# Rolau a Chyfrifoldebau o dan ECO4 Flex a GBIS Flex

## Y Cyngor:

1. Llofnodi a chyhoeddi Datganiad o Fwriad i gymryd rhan yn y cynllun ECO4 Flex/GBIS Flex.
2. Cymeradwyo a rheoli fframwaith darparwyr / gosodwyr ECO4 Flex/GBIS Flex a ffefrir.
3. Nodi defnyddwyr a chartrefi cymwys drwy ddefnyddio darparwyr/gosodwyr Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO) dewisedig.
4. Asesu atgyfeiriadau a'r dystiolaeth a gyflwynir yn erbyn y meini prawf cymhwysedd a nodir yn y Datganiad o Fwriad (Llwybrau 1 i 3).
5. Cyhoeddi Datganiadau i'r darparwyr/gosodwyr ECO4 Flex/GBIS Flex dewisiedig ar gyfer pob cartref cymwys. Mae Datganiad yn cadarnhau bod cartref yn cael ei ystyried yn gymwys o dan un o'r tri llwybr atgyfeirio, a bod tystiolaeth wedi'i chasglu i ddangos hyn.
6. Dewis pa Ddatganiadau i'w llofnodi. Nid oes rhaid i'r Cyngor lofnodi na chymeradwyo unrhyw Ddatganiad lle mae amheuaeth o dwyll. Gellir adrodd unrhyw amheuaeth o dwyll yma: counterfraud@ofgem.gov.uk
7. Llofnodi cytundeb rhannu data gydag Ofgem a chyflwyno hysbysiadau ynghylch Datganiadau i Ofgem ar gyfer pob cartref cymwys.
8. Datrys unrhyw anghysondebau mewn Datganiadau a nodir gan gyflenwyr ynni neu Ofgem.
9. Casglu tystiolaeth a chadw prawf o gymhwyster am hyd at 5 mlynedd ar ôl diwedd y cynllun, er mwyn paratoi ar gyfer archwiliadau gan Ofgem a chyflenwyr.

Nid yw'r Cyngor o dan unrhyw rwymedigaeth i gymryd rhan yn y broses o ddatrys anghydfodau sy'n codi o dan gynllun ECO4 Flex/GBIS Flex. Fodd bynnag, bydd yn cyfeirio defnyddwyr/preswylwyr at TrustMark, y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu (MCS), a darparwyr y cynlluniau – y sefydliadau hyn sy'n gyfrifol am oruchwylio ansawdd y gwaith a gyflawnir o dan ECO4/GBIS. Lle bo'n briodol, gall y Cyngor hefyd gyfeirio preswylwyr at Wasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth.

## Perchennog y Cartref / Defnyddiwr:

1. Nid oes rhaid i ddefnyddiwr/preswylydd gytuno i, na llofnodi unrhyw gytundeb â gosodwr, ar gyfer unrhyw waith nad ydynt yn ei ystyried yn addas ar gyfer eu cartref.
2. Mae'r trefniant ar gyfer cyflawni'r gwaith yn drefniant dan gytundeb rhwng y perchennog/ddefnyddiwr a'r gosodwr. Nid yw'r Cyngor yn rhan o'r trefniant hwn.
3. Dylai defnyddiwr/perchennog y cartref (neu'r landlord lle bo'n berthnasol) sicrhau bod yr holl Reoliadau Adeiladu, yn ogystal â chaniatad Cynllunio ac amgylcheddol ar waith cyn dechrau unrhyw waith yn yr eiddo.

## Cyflenwyr a Gosodwyr:

Mae prif gyfrifoldebau cyflenwyr a gosodwyr yn cynnwys y canlynol:

1. Mae'r Cyflenwyr Rhwymedig/Cwmnïau Ynni yn ariannu gosod mesurau effeithlonrwydd ynni.
2. Sicrhau bod holl aelodau perthnasol y gadwyn gyflenwi — gan gynnwys gosodwyr, Aseswyr Ôl-osod (Retrofit Assessors) a Chydlynwyr Ôl-osod (Retrofit Coordinators) — wedi'u cofrestru gyda TrustMark ac yn cydymffurfio â safonau PAS 2035 a'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu.
3. Cadarnhau a yw eiddo yn gymwys drwy asesiad SAP neu RdSAP (Gweithdrefn Asesu Safonol Data Gostyngol). Bydd gosodwyr yn penderfynu, ar ôl eu hasesiad cychwynnol SAP neu RdSAP, a yw'r eiddo yn bodloni'r gofynion cymhwysedd o ran band SAP a'r math o denantiaeth.

4. Penderfynu pa un o'r cynlluniau (ECO4 neu GBIS) sy'n fwyaf priodol ar gyfer eiddo'r defnyddiwr, os yw'n gymwys, a pha fesurau sy'n addas i'w gosod.
5. Hysbysu Ofgem o'r mesurau y cytunwyd arnynt ac sydd wedi'u gosod yn yr eiddo.
6. Sicrhau bod gofynion y cynllun yn cael eu bodloni, a bod y mesurau a osodir o dan GBIS Flex yn cael eu cyflawni yn unol â'r isafswm gofyniad incwm isel.
7. Yn achos cyflenwr ynni, defnyddio eu data dyled ynni eu hunain i nodi a chyfeirio cwsmeriaid cymwys drwy gynllun Supplier Flex.
8. Sicrhau bod ganddynt fynediad at yr holl dystiolaeth a gasglwyd i bennu cymhwysedd.
9. Cadw'r dystiolaeth ar gyfer cwsmeriaid cymwys a gyfeiriwyd drwy gynllun Supplier Flex.

## Ofgem:

Mae Ofgem yn gweinyddu ac yn rheoleiddio ECO4 a GBIS ac yn cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyfranogwyr y cynllun. Mae Ofgem hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

1. Gwirio hysbysiadau ynghylch Datganiadau gan Gynghorau yn erbyn hysbysiadau gan gyflenwyr.
2. Cynnal archwiliadau o gyflenwyr a Chynghorau.
3. Penderfynu a yw cyflenwr wedi cyflawni ei rwymedigaethau.

## Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ):

Mae DESNZ yn gyfrifol am:

1. Pennu polisi a deddfwriaeth y cynllun.
2. Adolygu a chymeradwyo cynigion Llwybr *Flex* 4 (Nid yw Llwybr 4 ar gael yng Ngheredigion).

## TrustMark:

1. Mae TrustMark yn gyfrifol am sicrhau bod gosodwyr yn cyflawni gwaith sy'n cydymffurfio â'r Fanyleb sydd ar Gael yn Gyhoeddus (PAS) 2035. Mae TrustMark yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd i sicrhau bod gosodwyr wedi'u hardystio o dan PAS 2030 gan gyrff ardystio sydd wedi'u hachredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig.
2. Mae TrustMark yn gyfrifol am sicrhau bod Aseswyr Ôl-osod a Chydlynwyr Ôl-osod yn cydymffurfio â'r safonau PAS 2035 perthnasol.
3. Rhaid i fesurau a osodir yn unol â PAS (y Fanyleb sydd ar Gael yn Gyhoeddus) neu'r Cynllun Ardystio Microgynhyrchu gael eu gosod gan — neu o dan gyfrifoldeb — person sydd wedi'i gofrestru gyda TrustMark at ddibenion y mesur hwnnw.
4. Ar gyfer mesurau na chyfeirir atynt yn PAS nac o dan y Cynllun Ardystio Microgynhyrchu, megis rhai mesurau ysgafn o ran data a mesurau arloesi, rhaid i'r gwaith o'u gosod fod yn ddarostyngedig i drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a diogelu defnyddwyr. Dylai'r trefniadau hyn gynnwys safonau gosod, trefniadau atgyweirio ac unrhyw atebion eraill, sy'n cyfateb i'r hyn sy'n ofynnol gan TrustMark.
5. Trustmark yw'r pwynt cyswllt i ddefnyddwyr sydd â chwynion neu broblemau ynghylch ansawdd y gwaith neu ymddygiad y gosodwyr.